

Digwyddiadau 2022



Dydd Sadwrn 3 Medi a dydd Sul 4 Medi

Mae'r brif raglen adloniant yn digwydd rhwng 9am a 5pm ar y ddau ddiwrnod gyda Phrif Lwyfan Maes Parcio'r Twyn ar agor tan 8pm ar ddydd Sadwrn yn unig. Mae rhai gweithgareddau'n digwydd drwy'r dydd ac eraill yn digwydd nawr ac yn y man drwy gydol y dydd.

Rhaglen Cerddoriaeth

Bydd pedair ardal gerddoriaeth yng nghanol y dref yn llawn dop o artistiaid unigol, deuawdau, a bandiau. Bydd ardaloedd Llwyfan y Foneddiges Werdd a Llwyfan Gilbert de Clare yn darparu adloniant i dop a chanol y dref gydag amrywiaeth o artistiaid yn perfformio caneuon gwreiddiol ac ail fersiynau bachog.

Yng Nghanolfan Siopa Cwrt y Castell, bydd ardal y 'Llwyfan Cymunedol' yn cynnal corau a chantorion lleol, gan gysylltu â grwpiau a phrosiectau cymunedol. Gallwch chi weld artistiaid addawol ac adnabyddus yn perfformio'u cerddoriaeth.

Ym Maes Parcio'r Twyn, fe fydd y prif lwyfan cerddoriaeth, 'Llwyfan y Tŵr Cam', yn cynnal detholiad o'r radd flaenaf o grwpiau a bandiau, a fydd yn perfformio cerddoriaeth o bob oes ac arddull. Cyfle i chi ddawnsio ac ymlacio!

Stondinau bwyd a chrefftau



Bydd dros 40 o stondinau bwyd a chreffft gyda chacennau, bara, melysion, cyffug, olifau, siytni ynghyd â nwyddau i'r cartref ac anrhegion creadigol a llawer mwy. Rhowch gynnig ar y gwahanol gawsiau sydd ar gael a phrynu eich ffefrynnau chi. Bydd digonedd o fwyd stryd i dynnu dŵr o'ch dannedd chi... aroglwch y sawrau a gwyllo'r bwyd poeth yn cael ei goginio o'ch blaen chi.

Bwyd Stryd



Ym Maes Parcio'r Twyn, lle bydd y prif lwyfan cerddoriaeth wedi'i leoli, bydd amryw o siopau bwyd stryd yn gweini prydau blasus! O gyw iâr wedi'i ffrio â llaeth enwyn, Souvlaki a Pizza i gŵn poeth, byrgyrs, rholiau porc a Roti Canai o Malaysia, bydd rhywbeth at ddant pawb. Bydd yr hen ffefrynnau, Dinky Donuts a Signore Twister, hefyd yng nghanol y dref gyda'u tatws ar ffurf troell hynod o flasus nhw a'u toesenni a dipiau bach nhw!

Bariau Rhyfeddol

Ym Maes Parcio'r Twyn, lle bydd y prif lwyfan cerddoriaeth yn cael ei leoli, bydd bariau amrywiol yn gweini alcohol i'w yfed ar y safle. O seidr a lager i wirodydd a choctels, bydd rhywbeth at ddant pawb. ***Rhaid i unrhyw alcohol sy'n cael ei brynu gael ei yfed yn yr ardal ddynodedig ac ni yw'n gallu cael ei gymryd allan o'r ardal hon i'w yfed ar rannau eraill o safle'r digwyddiad.***

Mannau Bwyta ac Yfed Awyr Agored

Bydd ardaloedd yfed a bwyta dynodedig ledled y dref gyda busnesau lletygarwch lleol yn cymryd rhan. Bydd llawer o'r bwytai a'r lleoliadau yfed yng nghanol y dref yn creu neu'n estyn eu hardaloedd eistedd i groesawu ymwelwyr i eistedd, ymlacio, bwyta, yfed a mwynhau'r gerddoriaeth sydd ar gael. ***Rhaid i unrhyw alcohol sy'n cael ei brynu gael ei yfed yn yr ardal ddynodedig ac ni yw'n gallu cael ei gymryd allan o'r ardal hon i'w yfed ar rannau eraill o safle'r digwyddiad.***

Marchnad Crefftwyr Caerffili



Bydd gan Farchnad Crefftwyr Caerffili ddetholiad o fwyd, crefft a chelf Cymreig ar werth. Gyda thua 25 o fasnachwyr, mae'n lle gwych i godi'ch hanfodion wythnosol chi ynghyd ag anrhegion o safon.

[Facebook: /caerphillylovelocalartisanmarket](https://www.facebook.com/caerphillylovelocalartisanmarket)

Ffair Grefftau Caerffili gan Crafty Legs – Y Senotaff



Bydd y ffair grefftau fisol wedi'i lleoli ger Coffi Vista o amgylch y senotaff a bydd yn gartref i tua 25 o grefftwyr. O gelf a chreffft i addurniadau cartref a gemwaith, bydd digonedd o anrhegion wedi'u gwneud â llaw yn lleol yn cael eu harddangos i chi gael dewis yr anrheg anarferol ac unigryw hwnnw.

[Facebook](#) – /CaerphillyCraftFair

Marchnad Crefft a Bwyd Cwrt y Castell



Bydd y farchnad grefftau a bwyd fisol yn cael ei lleoli yng Nghanolfan Siopa Cwrt y Castell, gyferbyn â Chastell Caerffili, a bydd yn arddangos dros 20 o stondinau crefftau a chynnyrch cartref wedi'u gwneud â llaw gan gynhyrchwyr lleol yn ne Cymru.

Facebook: /Castlecourtcraftandfoodmarket

Gweithdai Drymio

Dydd Sadwrn: Dan Phelps; pianydd proffesiynol, Hwylusydd drymiau a gweithdy.

Dydd Sul: Noel Watson; drymiwr proffesiynol, tiwtor drwm/offerynnau taro profiadol, ac arweinydd band samba cymunedol.

Gwnewch sŵn a mwynhau'r hwyl a sbri teuluol gyda'r gweithdai drymiau hyn! Nid oes angen unrhyw brofiad drymio arnoch chi, felly, gadewch i'r arbenigwyr eich arwain chi trwy guriadau Affricanaidd anhygoel, neu rythmau Samba syml.

Mae gweithdai drymio Affricanaidd Dan yn ffordd wych o uno grwpiau trwy rythmau traddodiadol Affricanaidd. Fe gewch chi brofiad ymarferol o ddefnyddio offerynnau traddodiadol Affricanaidd fel drymiau Djembe, DjunDjun (drwm bas Affricanaidd), clychau Ghana ac ysgydwyr Shekere.

Cymerwch ran yn ei Sesiwn Samba ddydd Sul! Bydd y cyfranogwyr yn cael eu hysbrydoli drwy gael hwyl a chreu cerddoriaeth!

Facebook: [phelpsmusicuk](https://www.facebook.com/phelpsmusicuk) ac [OnlyDrumsAloud](https://www.facebook.com/OnlyDrumsAloud)

Gwefannau: www.phelpsmusic.uk /a www.onlydrumsaloud.com

Gweithdai DJ

Mae Scratch Master Slider yn DJ proffesiynol a thiwtor bwrdd troi sydd â dros 22 mlynedd o brofiad.

Mae wedi agor i nifer o artistiaid sy'n enwog yn genedlaethol ac yn fyd-enwog, gan gynnwys Public Enemy, Akil the MC (Jurassic 5), Pencampwr y Byd DMC, DJ Cash Money, a Foreign Beggars, i enwi dim ond rhai, ac mae wedi chwarae mewn gwyliau a lleoliadau amrywiol ledled y Deyrnas Unedig.

Bydd yn eich helpu chi i ddatgelu cyfrinachau a thriciau technegol pobl fel Jazzy Jeff, Tiesto neu Calvin Harris gyda gosodiad cwbl broffesiynol!! Dysgwch sut i ollwng curiad, ychydig o dechnegau crafu sylfaenol ac ychydig o driciau corff efallai i'ch cychwyn chi ar eich taith fel DJ.

Facebook: <https://www.facebook.com/ScratchMasterSliderUK>

Gwefan: www.scratchmasterslider.com

Youtube: www.youtube.com/user/ScratchMasterSlider

Instagram: www.instagram.com/scratchmasterslider

Gweithdai Crefft Creu Offerynnau Cerdd

Ymunwch â Francesca yn ei sesiynau 'throwawaymusic' a dysgwch sut i adeiladu offerynnau o ddeunyddiau sydd wedi'u hailgylchu! Byddwch chi nid yn unig eu hadeiladu nhw ond eu chwarae nhw a mynd â nhw adref gyda chi! Bydd yr holl ddeunyddiau yn cael eu darparu. Mae Francesca yn actor, cerddor a thiwtor mewn amrywiaeth o weithdai cymunedol.

Facebook: throwawaymusic

Peintio Wynebau - Tracey's Funky Faces *(ddydd Sul yn unig)*

Castell Caerffili



Bydd rhai arddangosfeydd ail-greu yn cael eu cynnal yn y Castell ddydd Sul yn unig.

Cynnig Arbennig ar gyfer Castell Caerffili - **gostyngiad o 25% ar fynediad i'r castell ar 3 a 4 Medi. Cadwch eich lle chi ar-lein nawr i osgoi cael eich siomi drwy www.aelodaethcadw.gwasanaeth.llyw.cymru/digwyddiadau/**

The Welcoming Committee – Theatr Stryd
(ddydd Sadwrn)

Byddwch chi'n sicr o gael croeso cynnes gyda Bert ac Arthur ar y Pwyllgor Croesawu. Eu nod nhw yw gwneud i chi deimlo'n arbennig ac yn gartrefol. Byddan nhw'n cynnal agoriad swyddogol ar gyfer unrhyw beth sydd angen ei agor yn swyddogol – stondinau, bagiau, waledi. A'r cyfan wrth roi gwobrau arbennig ar gyfer y 'gorau yn y sioe' – arddangosfa orau, esgidiau gorau, steil gwallt orau, rhieni gorau. CROESO, CROESO.

Facebook: [diggingholestheatre](#)

Gwefan: www.diggingholes.co.uk

Amseroedd perfformio

11.00am – 11.45am

12.15pm – 1.00pm

1.30pm – 2.15pm

2.45pm – 3.30pm

4.00pm – 4.45pm

French Waiters – Theatr Stryd (ddydd Sul)

Mae'r French Waiters yn angerddol am eu gwaith a'u cwsmeriaid nhw. Maen nhw'n rhoi croeso mawr a chynnes ac yn frwdfrydig iawn i weini. Gyda chaniad cloch neu glic bysedd, fe fyddan nhw yno i wneud eu gorau glas i ddiwallu eich holl anghenion.

Facebook: [diggingholestheatre](#)

Gwefan: www.diggingholes.co.uk

Amseroedd perfformio

11.00am – 11.45am

12.15pm – 1.00pm

1.30pm – 2.15pm

2.45pm – 3.30pm

4.00pm – 4.45pm

(Mae'r holl wybodaeth yn gallu newid. Mae'r wybodaeth yn gywir ar adeg cyhoeddi'r wybodaeth.)